



Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd
Bwrdeistref Sirol Caerffili 2020-2035

EB17: Papur Tystiolaeth ar Gyfleusterau Cymunedol

Hydref 2026

Bwrdeistref Sirol Caerffili
Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd
2020 – 2035
Cyfleusterau Cymunedol
Crynodeb Annhechnegol

Crynodeb Annhechnegol

Mae'r Papur Cefndir Cyfleusterau Cymunedol yn darparu'r dystiolaeth i gefnogi polisïau cyfleusterau cymunedol yn Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd Bwrdeistref Sirol Caerffili (2020-2035). Mae'n adolygu'r ddarpariaeth bresennol o gyfleusterau cymunedol allweddol, yn nodi anghenion a heriau'r dyfodol, ac yn helpu i lywio penderfyniadau cynllunio.

Mae cyfleusterau cymunedol yn cynnwys canolfannau cymunedol, canolfannau ieuenctid, llyfrgelloedd, ysgolion, colegau, cyfleusterau gofal ieuchyd, mynwentydd a chyfleusterau gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r gwasanaethau hyn yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi llesiant preswylwyr, mynediad at wasanaethau, addysg, gofal ieuchyd, cynhwysiant cymdeithasol a'r economi leol.

Mae'r papur yn nodi bod Caerffili wedi profi gostyngiad bach yn y boblogaeth dros y degawd diwethaf a bod rhai cymunedau, yn enwedig yng ngogledd y fwrdeistref, yn parhau i wynebu heriau economaidd. Mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd cadw a gwella cyfleusterau lleol er mwyn sicrhau bod cymunedau'n parhau'n gynaliadwy ac wedi'u cysylltu'n dda.

Cyfleusterau Allweddol:

- **Canolfannau cymunedol:** Mae 48 o ganolfannau'n gweithredu ledled y fwrdeistref sirol, gyda rhai dan adolygiad ac eraill yn cael eu hystyried ar gyfer perchnogaeth gymunedol.
- **Canolfannau ieuenctid:** Nid yw'r ddarpariaeth bresennol yn ateb y galw'n llawn, ac mae cynlluniau ar waith i ehangu cyfleusterau a gwasanaethau.
- **Llyfrgelloedd:** Mae gwasanaethau'n symud tuag at saith canolfan hwb mewn trefi sy'n cyfuno gwasanaethau llyfrgell a gwasanaethau'r cyngor.
- **Addysg:** Mae rhwydwaith cryf o ysgolion a cholegau yn bodoli, gyda blaenoriaethau buddsoddi yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.
- **Gofal ieuchyd:** Mae'r rhan fwyaf o'r cyfleusterau yn addas i'r diben, er bod nifer o leoliadau wedi'u nodi ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol.
- **Mynwentydd:** Mae pwysau ar gapasiti yn dod i'r amlwg mewn rhai ardaloedd, gyda nifer o brosiectau ehangu ar y gweill.
- **Gwasanaethau cymdeithasol:** Darperir ystod eang o gyfleusterau preswyl, byw â chymorth a gofal ledled y fwrdeistref.

Mae'r papur yn dod i'r casgliad bod gan Gaerffili rwydwaith da o gyfleusterau cymunedol yn gyffredinol, ond y bydd angen buddsoddi parhaus, adolygiadau gwasanaeth a gwelliannau i gyfleusterau er mwyn diwallu anghenion y dyfodol. Mae'r dystiolaeth yn cefnogi polisïau cynllunio sy'n diogelu cyfleusterau cymunedol presennol ac yn annog darparu cyfleusterau newydd neu well lle bo angen.